



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Y Sector Iechyd)

Gwella gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg

Dyddiad cyhoeddi: 14 Gorffennaf 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 14 Hydref 2016

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Y Sector Iechyd)

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn barn pobl am y Rheoliadau drafft sy'n pennu Safonau'r Gymraeg ar gyfer y sector iechyd. Bydd y safonau hyn yn caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg osod dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg ar fyrddau Iechyd Lleol GIG Cymru, ymddiriedolaethau'r GIG, y Cyngorau Iechyd Cymuned, Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru ac Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.

Mae'r Rheoliadau drafft hefyd yn diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4). Bydd y cyrff canlynol yn cael eu cynnwys yn Rheoliadau Rhif 4: Cyngor Gofal Cymru, y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Optegol Cyffredinol, y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn i sicrhau bod pawb sydd â diddordeb wedi cael digon o gyfle i ddweud eu dweud ar y gyfres hon o safonau. Rhwng 17 Tachwedd 2014 a 6 Chwefror 2015, cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg ymchwiliad safonau gyda'r cyrff bydd y gyfres hon o safonau yn berthnasol iddynt. Roedd casgliadau'r Comisiynydd, a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru ar ffurf adroddiad safonau, yn seiliedig ar y sylwadau a dderbyniodd y Comisiynydd yn ystod yr ymchwiliad hwnnw. Wedi rhoi sylw dyledus i adroddiad y Comisiynydd, rydym nawr am i'r cyhoedd, y cyrff a fydd yn ddarostyngedig i'r safonau, ac unrhyw un arall sydd â diddordeb gael mynegi eu barn am y Rheoliadau a fydd yn pennu'r safonau er mwyn eu datblygu ymhellach.

Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad ar y dudalen nesaf i gyrraedd erbyn **14 Hydref 2016** fan hwyraf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Comisiynydd y Gymraeg 2015)

Ymateb Gweinidogion Cymru i adroddiadau ail ymchwiliad safonau Comisiynydd y Gymraeg (2015)

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mwy na geiriau.... Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol (2016)

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Is-adran y Gymraeg
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@cymru.gsi.gov.uk
Ffôn: 0300 0604400

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
Cyflwyniad	3
Swyddogaethau Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd	3
Pwy sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau drafft?	3
Adeiladu ar waith y Cynlluniau Iaith a <i>Mwy na geiriau...</i>	3
Y broses – sut bydd y safonau yn gweithio?	4
Hysbysiadau cydymffurfio	5
Apelio	5
Sanctsiynau	6
Pa ganlyniadau rydym yn eu rhagweld?	6
Gan bwy ydyn ni am glywed am y Rheoliadau a beth ydyn ni eisiau ei wybod?	6
Rhan 1 – Cyflenwi gwasanaethau gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau	7
Ymgynghoriad clinigol	7
Cynhadledd achos a darpariaeth yn gysylltiedig ag iechyd	8
Ymgynghoriadau clinigol a chynadleddau achos a ddarperir gan un bwrdd iechyd neu ymddiriedolaeth ar ran un arall	8
Unigolyn sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru	9
Gofal iechyd mewn carcharau	9
Eithriadau	9
Rhan 2 – Gofal sylfaenol	11
Rhan 3 – Diwygiadau i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) ac Aseiad Effaith Rheoleiddiol	14
Atodiad A: Cyrff y sector iechyd sy'n cael eu cynnwys yn y Rheoliadau arfaethedig	16
Y cyrff yr ydym yn bwriadu eu cynnwys yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4)	16
Atodiad B: Adroddiadau a deddfwriaeth	18

Rhagair y Gweinidog

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael i bobl Cymru. Y cam nesaf yn y broses hon yw cyflwyno trefn safonau'r Gymraeg i gyrff y sector iechyd.

Mae'r safonau drafft yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan fframwaith strategol *Mwy na geiriau...* sydd wedi helpu i wella gwasanaethau Cymraeg o fewn y sector. Er y cynnydd, rydym yn cydnabod bod lle i wella. Mae'n bwysig nodi nad mater o ddewis yw derbyn gwasanaethau iechyd yn Gymraeg i rai pobl – mae'n fater o raid.

Mae safonau'r Gymraeg yn cyfrannu at y gwaith o sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau iechyd yn eu hiaith gyntaf. Wrth ddrafftio'r safonau hyn, rydym wedi rhoi sylw i'r ffaith bod rhai o'r gyrff yn y sector hwn yn rhedeg gwasanaeth 24 awr y dydd, 365 o ddiwrnodau'r flwyddyn, a'u bod yn cynnig ystod eang o driniaethau, o'r arferol i lawdriniaethau ar y galon, o driniaeth frys i ofal diwedd oes. Mae sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn ganolog i'r sector hwn yn her fawr, ni fydd yn digwydd dros nos a bydd angen i'r gyrff newid eu dulliau gweithio. Rwy'n hyderus bod yr agwedd pragmatig a fabwysiadwyd wrth ddrafftio'r safonau drafft hyn yn rhoi sylw i'r heriau hyn ond y byddant hefyd yn arwain at sicrhau mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith o fewn y sector iechyd.



Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n llunio Safonau'r Gymraeg ('y safonau') o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur"). Diben y safonau yw rhoi mwy o hawliau i siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith gan sicrhau eu bod yn hawliau y gellir eu gorfodi.

Mae Rheoliadau sy'n pennu'r safonau ar gyfer cyrff yn cael eu cyflwyno'n raddol ac maent yn cael eu llunio gyda'r nod o fod yn rhesymol, yn gymesur ac yn berthnasol i'r cyrff a enwir yn y Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau drafft sy'n destun i'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar gyrff y sector iechyd. Mae hyn yn cynnwys holl Fyrddau Iechyd Lleol GIG Cymru, Ymddiriedolaethau'r GIG, y Cynghorau Iechyd Cymuned, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG a chyrff rheoleiddio'r proffesiwn iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Atodlen 6 i'r Rheoliadau drafft yn rhestru'r holl gyrff sy'n ddarostyngedig i'r safonau drafft a nodir yn Atodlenni 1 i 5 ('y safonau drafft'). Mae rheoliad 4 yn rhestru'r cyrff yr ydym yn bwriadu eu cynnwys yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016, a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2016.

Rhwng 17 Tachwedd 2014 a 6 Chwefror 2015, cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") Ymchwiliad safonau gyda'r cyrff a restrir yn Atodiad A¹. Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu cynnal ymgynghoriad ar y safonau drafft. Ymrwymodd y Gweinidogion i'r penderfyniad hwn yn eu hymateb i Adroddiad Ymchwiliad Safonau'r Comisiynydd² a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i unrhyw un sydd â diddordeb yn y Rheoliadau drafft i fynegi eu barn arnynt, ac i weld sut yr ydym wedi ymgorffori casgliadau'r Comisiynydd yn ei Hadroddiad Ymchwiliad Safonau yn y Rheoliadau drafft

Swyddogaethau Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd

Rhaid i'r safonau gael eu gwneud drwy eu pennu mewn Rheoliadau. Wedi ei llywio gan Adroddiad Ymchwiliad Safonau'r Comisiynydd ac adborth gan randdeiliaid, rôl Llywodraeth Cymru oedd drafftio'r safonau a'r Rheoliadau sy'n eu cynnwys. Unwaith y caiff y Rheoliadau eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, penderfyniad y Comisiynydd fydd dewis pa safonau i'w gosod ar y cyrff unigol yn y sector iechyd drwy gyflwyno hysbysiau cydymffurfio.

Pwy sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau drafft?

Gellir gweld rhestr gyflawn o'r cyrff yn Atodiad A.

Adeiladu ar waith y Cynlluniau Iaith a *Mwy na geiriau*

Ar hyn o bryd mae'r cyrff sy'n destun i'r ymgynghoriad hwn (ac eithrio Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG a Chyngor Ceiropractig Cyffredinol) yn cyflenwi gwasanaethau Cymraeg ar sail eu Cynlluniau Iaith a weithredir o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

¹<http://www.comisiynyddygyrnaeg.cymru/Cymraeg/Cyhoeddiadau/Pages/Canlyniadau.aspx?Category=Deddfwriaeth%20ac%20is-ddeddfwriaeth%20&Year=2015>

²<http://gov.wales/docs/dcells/publications/151019-second-standards-investigations-cy.pdf>

Mae'r Cynlluniau wedi llwyddo i godi proffil gwasanaethau a ddylai fod ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg, yn ogystal â sicrhau bod llawer o'r gwasanaethau hynny yn cael eu darparu yn Gymraeg erbyn hyn. Lle maent yn syrthio'n brin, fodd bynnag, yw eu hanallu i gyflwyno sancsiynau pan na chyflawnir y gofynion y cytunwyd arnynt mewn Cynllun.

Mae'r safonau wedi'u drafftio mewn ffordd sy'n adeiladu ar waith y Cynlluniau. Bydd dyletswydd ar y cyrff a fydd yn gorfod cydymffurfio â'r safonau drafft i fynd ati mewn ffordd fwy rhagweithiol, strategol i roi lle canolog i'r Gymraeg. Rydym yn hyderus bod y safonau drafft yn darparu sylfaen gadarn, a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod safonau mewn ffordd bragmatig a fydd yn arwain at welliannau parhaus yn y gwasanaethau sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg.

Mae *Mwy na geiriau....*, fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, yn cefnogi'r Cynlluniau Iaith drwy ymdrin â materion drwy'r sector cyfan mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio a'i chydgyssylltu, gan amlinellu'r camau y mae angen eu cymryd i wella gwasanaethau Cymraeg yn y sector hwnnw. Cyflwynodd yr egwyddor o gynnig rhagweithiol, lle bo gwasanaeth yn cael ei gynnig yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Mae'r egwyddor hon yn rhan greiddiol o'r safonau drafft.

Er bod y safonau yn disodli'r Cynlluniau Iaith, bydd *Mwy na geiriau....* yn parhau i ddarparu'r seilwaith ar gyfer y polisi ehangach. Bydd y safonau'n rhan o'r seilwaith hwn ac felly bydd *Mwy na geiriau....* yn parhau i fod yn ddogfen bolisi bwysig ar gyfer y sector gan gefnogi'r broses o roi'r safonau ar waith.

Yn Atodiad B gwelir rhagor o adroddiadau a deddfwriaeth sy'n nodi cyd-destun y polisi ar gyfer cyflenwi gwasanaethau Cymraeg yn y sector iechyd.

Y broses – sut bydd y safonau yn gweithio?

Mae'r Rheoliadau drafft yn nodi'r safonau yr ydym yn bwriadu eu gwneud yn benodol gymwys i'r cyrff a restrir yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau drafft. Mae'r rhain yn dilyn yr un drefn â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg a wnaed eisoes ar gyfer sectorau eraill megis Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol, tribiwnlysoedd Cymru, yr heddlu a'r gwasanaeth tân ac achub. Mae'r safonau'n cael eu teilwra i adlewyrchu'r ffordd y mae'r cyrff a enwir yn y Rheoliadau yn cyflenwi gwasanaethau. Mae'r Rheoliadau drafft hyn yn cynnwys safonau newydd ac amodau penodol i adlewyrchu'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi yn y sector iechyd.

Cyn i'r corff orfod cydymffurfio â safon, rhaid bodloni nifer o amodau. Mae'r amodau perthnasol i gyrff y sector iechyd fel a ganlyn:

- (i) Mae'r corff yn dod o dan Atodlen 5 a 6 i'r Mesur (neu o dan gategori yn yr Atodlenni hynny);
- (ii) Mae'r safon yn benodol gymwys i'r corff hwnnw. Ystyr hyn yw bod Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wedi awdurdodi'r Comisiynydd i gyflwyno hysbysiad cydymffurfio i'r corff sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â'r safon;

- (iii) Mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno hysbysiad cydymffurfio i'r corff sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safon, ac mae'r hysbysiad cydymffurfio mewn grym.

Daw'r safonau o dan 5 pennawd:

1 – Safonau cyflenwi gwasanaethau. Gosodir y rhain mewn perthynas â hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, neu i sicrhau na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflenwi gwasanaethau.

2 – Safonau llunio polisi. Bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ystyried effaith ei benderfyniadau polisi ar allu pobl i ddefnyddio'r iaith ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3 – Safonau gweithredu. Bydd y rhain yn delio â defnydd mewnol y cyrff o'r Gymraeg. Os gosodir safonau gweithredu ar sefydliad, bydd disgwyl i'r sefydliad hwnnw gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol.

4 – Safonau cadw cofnodion. Bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff gadw cofnodion am rai o'r safonau eraill, ac am unrhyw gwynion y maent yn eu derbyn. Bydd y cofnodion hyn yn helpu'r Comisiynydd i reoleiddio'r modd y mae'r corff yn cydymffurfio â'r safonau.

5 – Safonau sy'n ymdrin â materion atodol. Mae'r Rheoliadau drafft hefyd yn cynnwys safonau sy'n ymdrin â materion atodol, amrywiol gan gynnwys llunio adroddiad blynyddol, trefniadau monitro a darparu gwybodaeth i'r Comisiynydd.

Hysbysiadau cydymffurfio

Mae'r Rheoliadau drafft yn nodi'r ystod o safonau y gellir eu gosod ar sefydliad. Does dim gofyniad i'r Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i bob corff gydymffurfio â phob safon.

Yn hynny o beth, mae gan y Comisiynydd hyblygrwydd wrth ddewis gyda pha safonau, ac i ba raddau, y bydd yn rhaid i gorff gydymffurfio. Bydd y Comisiynydd hefyd yn pennu'r dyddiad erbyn pryd y bydd yn rhaid i'r sefydliad fod wedi cydymffurfio â'r safon.

Bydd sawl opsiwn yn agored i'r Comisiynydd, felly, o ran dewis pa safonau i'w gosod ar gorff. Efallai y bydd corff yn gorfod cydymffurfio â safon mewn rhai amgylchiadau yn unig neu mewn rhai meysydd yn unig, yn dibynnu ar yr hyn sy'n briodol iddynt. Bydd hyn yn eu paratoi ar gyfer gwella eu darpariaeth yn raddol yn y dyfodol.

Mae rhai safonau yn ddibynnol ar ei gilydd. Mae'r Rheoliadau felly yn cynnwys tabl i gyd-fynd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau a'r safonau gweithredu. Mae'r tablau hyn yn rhestru pa safonau eraill y bydd angen eu gosod pan fydd safon benodol yn cael ei chynnwys mewn hysbysiad cydymffurfio.

Apelio

Bydd corff yn gallu herio'r gofyniad i gydymffurfio â safon benodol ar sail p'un a yw'n rhesymol ac yn gymesur disgwyl iddynt wneud hynny.

Yn y lle cyntaf, bydd corff yn gallu herio'r Comisiynydd ei hun, drwy ofyn iddi ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon benodol yn yr hysbysiad cydymffurfio yn rhesymol ac yn gymesur. Os na allant ddatrys yr anghydfod, mae modd apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, ac wedi hynny i'r Uchel Lys (ar gwestiwn cyfreithiol).

Sanctsiynau

Y Comisiynydd fydd yn gyfrifol am orfodi cydymffurfiaeth â'r safonau. Mewn achosion lle bydd y Comisiynydd yn penderfynu bod corff wedi methu â chydymffurfio â safon, gall gymryd camau gorfodi.

Pa ganlyniadau rydym yn eu rhagweld?

Mae'r safonau wedi'u drafftio gyda'r nod o:

- wella'r gwasanaethau Cymraeg y gall siaradwyr Cymraeg eu disgwyl gan gyrff y sector iechyd
- cynyddu'r defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg drwy sicrhau bod yr egwyddor o'r cynnig rhagweithiol yn ganolog i'r gwasanaethau.
- ei gwneud yn glir i gyrff beth y mae angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg
- sicrhau cysondeb priodol o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrff sy'n rhan o'r un sectorau

Gan bwy ydyn ni am glywed am y Rheoliadau a beth ydyn ni eisiau ei wybod?

Rydym yn awyddus i glywed barn unrhyw un sydd â diddordeb yn y safonau, a'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector iechyd. Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor tan 14 Hydref i sicrhau bod y cyhoedd, y cyrff a fydd yn cael eu heffeithio gan y safonau hyn, a rhan ddeiliaid eraill sydd â diddordeb yn cael cyfle digonol i fynegi eu barn ar y safonau. Gwnewch unrhyw sylwadau y mynnwch ar unrhyw agwedd ar y Rheoliadau drafft. Dyma eich cyfle chi i fynegi eich barn ar y safonau y bydd y Comisiynydd yn cael dewis eu gosod ar y cyrff a nodir yn Atodlen 6. Ni chaiff y Comisiynydd amrywio'r safonau hyn yn hwyrach, dim ond dewis p'un a ddylai ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio â hwy, neu ym mha amgylchiadau neu feysydd y dylai'r corff gydymffurfio â hwy.

Mae'r ymgynghoriad hwn eisiau clywed yn benodol a yw'r safonau yn cyrraedd y nod o ran y lefel sylfaenol o wasanaethau Cymraeg a fydd ar gael i unigolion. Mae'r holiadur amgaeedig yn gofyn eich barn am agweddau penodol o'r Rheoliadau drafft, ac yn benodol pan fo newidiadau wedi'u gwneud i'r rhai a ddefnyddiwyd gan y Comisiynydd yn ei Hymchwiliad Safonau.

Mae Rhan 1 yn ymdrin â chyflenwi gwasanaethau gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau

Mae Rhan 2 yn ymdrin â gofal sylfaenol

Mae Rhan 3 yn ymdrin â diwygiadau i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4)

Rhan 1 – Cyflenwi gwasanaethau gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau

Ymgynghoriad clinigol

Un o'r ystyriaethau allweddol wrth ddatblygu'r safonau drafft oedd y gwahaniaeth rhwng ymgynghoriad clinigol a chyfarfodydd eraill. Ystyr ymgynghoriad clinigol yw rhyngweithio rhwng unigolyn a chorff ynghylch darpariaeth iechyd, gan gynnwys asesu, diagnosio neu drin yr unigolyn hwnnw. (Rheoliad 1(4))

Pan fydd unigolyn yn mynychu ymgynghoriad clinigol, rhaid gofyn i'r unigolyn a hoffai gymorth Cymraeg yn ystod yr ymgynghoriad. Os yw'n dymuno cael cymorth Cymraeg, rhaid cadw cofnod o'r dymuniad hwnnw, a rhaid i'r corff ddarparu cymorth Cymraeg mewn ymgynghoriadau clinigol ar ôl hynny oni bai y gellir cynnal yr ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg. Mae cymorth Cymraeg yn golygu bod rhaid i'r corff roi cymorth yn Gymraeg i wneud yn siŵr bod yr unigolyn yn deall beth sy'n digwydd yn ystod yr ymgynghoriad. Gellid gwneud hyn drwy ddarparu aelod staff sy'n siarad Cymraeg sy'n gallu gwirio bod yr unigolyn yn deall beth sydd wedi cael ei ddweud ac, os bydd angen, egluro yn Gymraeg beth sydd wedi cael ei ddweud, neu drwy ddarparu cyfieithiad (safon 25 a pharagraff 39 o Ran 3 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau).

Yr egwyddor sy'n sail i'r cysyniad o gymorth Cymraeg yw bod y corff, lle bo modd, yn cynnal yr ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg. Os nad yw hynny'n bosibl, dylid defnyddio'r sgiliau iaith Gymraeg o fewn y gweithlu presennol i hwyluso ymgynghoriadau clinigol i leihau'r ddibyniaeth ar gyfieithu.

Bwriedir i'r diffiniad hwn gwmpasu amrywiaeth o senarios. Er enghraifft, unigolyn sy'n mynychu clinig cleifion allanol, claf mewnol mewn ysbyty, unigolyn sy'n mynychu apwyntiad gydag ymgynghorydd, triniaeth mewn cerbyd nad yw'n gerbyd brys, ymweliad gartref gan ymwelydd iechyd neu unigolyn sy'n mynychu clinig symudol e.e. clinig y fron. Yn aml bydd un apwyntiad yn golygu rhyngweithio â gwahanol aelodau o staff, er enghraifft bydd apwyntiad cyn geni yn cynnwys rhyngweithio â chynorthwyr gofal iechyd, sonograffwyr, bydragedd ac ymgynghorwyr, yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr unigolyn.

Mae'r Rheoliadau drafft yn trin pob rhyngweithiad unigol fel ymgynghoriad clinigol, ac mae'r dull hwn yn rhoi hyblygrwydd i'r corff ar sut i gydymffurfio â'r safon yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'r aelodau staff sy'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad clinigol. O ganlyniad, pe bai unigolyn yn dymuno cael cymorth Cymraeg, gallai person gwahanol ddarparu'r cymorth hwnnw ym mhob rhyngweithiad, a gellid ei ddarparu mewn ffordd wahanol. Er enghraifft, gall y cynorthwyydd gofal iechyd fod yn siaradwr Cymraeg sy'n barod i gynnal ymgynghoriad yn Gymraeg, ond efallai y bydd angen i aelodau arall o staff chwilio am aelod o staff sy'n siarad Cymraeg neu gyfieithydd Cymraeg er mwyn cydymffurfio â'r safon.

Mae'r un egwyddorion yn wir am glaf mewnol mewn ysbyty.

Nid yw'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol i unigolyn ymateb cyn ymgynghoriad clinigol yn nodi a yw am gael cymorth Cymraeg. Mewn llawer o achosion, felly, hyd yn oed os yw'r ymgynghoriad wedi'i drefnu ymlaen llaw, gallai'r ymateb gael ei roi pan fydd y claf yn cyrraedd yr apwyntiad.

Cynhadledd achos a darpariaeth yn gysylltiedig ag iechyd

Ystyr cynhadledd achos yw cyfarfod rhwng

- unigolyn, ac
- o leiaf un o'r cyrff a restrir yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau drafft, ac
- o leiaf un corff arall (rhaid i un ohonynt fod yn gyngor sir neu'n gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru (Rheoliad 1(4)).

Prif ddiben y gynhadledd achos yw trafod darpariaeth unigolyn yn ymwneud ag iechyd sy'n golygu darparu gwasanaethau i unigolion a allai gael effaith ar iechyd yr unigolyn hwnnw ond nad ydynt yn wasanaethau iechyd a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd. Er enghraifft, efallai y bydd cynhadledd achos yn trafod sut y gellir cefnogi unigolyn i symud yn ôl gartref yn dilyn triniaeth. Mewn senario o'r fath, rhaid i'r corff ofyn a yw unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn ystod y gynhadledd achos ac os felly, oni bai y cynhelir y gynhadledd achos yn Gymraeg, rhaid darparu cyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg. (Safonau 26, 26A a 26B).

Drafftwyd y safonau drafft i ymdrin â chynadledau achos mewn ffordd wahanol i ymgynghoriadau clinigol a chyfarfodydd eraill gan eu bod yn cynnwys nifer o asiantaethau lle trafodir nifer o faterion gwahanol, o bosibl. Yn yr amgylchiadau hyn, os na ellir cynnal y gynhadledd yn Gymraeg, mae'n bwysig bod yr unigolyn yn gallu cyfrannu a chlywed cyfraniad pobl eraill yn Gymraeg os dyna yw eu dewis.

Nid yw cynhadledd achos (neu unrhyw gyfarfod arall) sydd ond yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol a restrir ym mharagraff 38 o Atodlen 1 rhan 3, yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg. Nid ydym yn credu ei bod yn rhesymol disgwyl i'r mathau hyn o gyfarfodydd fod yn destun safonau gan eu bod yn gallu cael eu cynnull ar fyr rybudd ac yn gallu digwydd yn aml, heb unrhyw glaf yn bresennol. Yn aml hefyd maent yn trafod mwy nag un achos a gallent gynnwys cyfraniadau dros y ffôn neu drwy gyfrwng fideo-gynadleda.

Ymgynghoriadau clinigol a chynadledau achos a ddarperir gan un bwrdd iechyd neu ymddiriedolaeth ar ran un arall

O dan amgylchiadau pan fydd unigolyn yn mynychu cynhadledd achos neu ymgynghoriad clinigol a ddarperir gan un bwrdd iechyd neu ymddiriedolaeth yng Nghymru ar ran bwrdd iechyd neu ymddiriedolaeth arall yng Nghymru, y safonau sy'n gymwys (os oes rhai) yw'r rhai sy'n gymwys i'r corff sy'n cynnal y gynhadledd neu'r ymgynghoriad. Er enghraifft os caiff unigolyn ei atgyfeirio gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg am ymgynghoriad clinigol, y safonau sy'n gymwys yw'r rhai a osodir ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Yn yr un modd, os bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru (sy'n gyfrifol am nifer o raglenni sgrinio) yn gwahodd unigolyn i fynychu apwyntiad sgrinio (h.y. ymgynghoriad clinigol) a gynhelir ar eu rhan gan ymddiriedolaeth neu fwrdd iechyd arall, y safonau sy'n gymwys yw'r rhai a osodir ar yr ymddiriedolaeth neu'r bwrdd iechyd sy'n cynnal yr apwyntiad sgrinio hwnnw.

Mae hyn yn wahanol i'r dull a ddefnyddiwyd yn Rheoliadau'r safonau blaenorol mewn perthynas ag is-gontractio ac o dan yr holl amgylchiadau eraill lle bydd y corff yn is-gontractio. O dan yr amgylchiadau hynny, os byddai trydydd parti sy'n darparu gwasanaethau ar ran corff yn methu â chydymffurfio â'r safonau a osodir ar y corff, byddai'r corff yn torri safonau. Mae'r newid hwn yn cydnabod y gallai un bwrdd iechyd gynnal

ymgyngoriad clinigol neu gynhadledd achos ar ran un neu ragor o fyrddau iechyd, a allai fod yn destun safonau gwahanol, ar yr un pryd e.e. ar ward ysbyty.

O dan yr amgylchiadau hynny, byddai'n afresymol disgwyl i'r bwrdd iechyd sydd wrthi'n cynnal ymgyngoriad clinigol neu gynhadledd achos gydymffurfio â safonau pob bwrdd iechyd comisiynu neu ymddiriedolaeth, a allai i gyd fod yn wahanol. Yn yr un modd credwn ei bod yn afresymol disgwyl i'r bwrdd iechyd neu'r ymddiriedolaeth sy'n comisiynu sicrhau y cydymffurfir â'u safonau bob tro y darperir ymgyngoriad clinigol neu gynhadledd achos ar eu rhan gan gorff arall.

Yr ydym felly wedi dewis y dull gweithredu lle gall yr unigolyn ddisgwyl y bydd corff sydd wrthi'n cynnal ymgyngoriad clinigol neu gynhadledd achos yn cydymffurfio â'r safonau a osodwyd arno (os oes rhai) (Rheoliad 1(7) ac (8)).

Unigolyn sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru

Pan fydd y safonau'n cyfeirio at unigolyn mae hyn yn golygu aelod o'r cyhoedd sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru. Mae hyn yn golygu na fydd yn ofynnol i gyrff y sector iechyd a restrir yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau drafft hyn gydymffurfio â safonau (yn amodol ar eu hysbysiad cydymffurfio), ond i'r graddau y mae'r unigolyn o dan sylw'n preswyllo fel arfer yng Nghymru. Ni fydd angen iddynt gydymffurfio â'r safonau wrth ddelio â pherson sy'n byw y tu allan i Gymru, er enghraifft rhywun sy'n byw yn Lloegr ond sy'n cael ei drin mewn ysbyty neu glinig yng Nghymru. (Rheoliad 1(4)).

Gofal iechyd mewn carcharau

Byrddau iechyd sy'n gyfrifol am wasanaethau gofal sylfaenol yng ngharcharau'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac am anghenion gofal iechyd eilaidd a thrydyddol pob carcharor. Rydym o'r farn y dylid trin darpariaeth gofal iechyd mewn carcharau yn yr un modd â phob gofal iechyd eraill.

Eithriadau

Mae'r Rheoliadau yn amlinellu rhai amgylchiadau pan na fyddai'r safonau a osodir ar gyrff yn gymwys.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- ymateb i argyfwng sifil fel y'i nodir yn Neddff Argyfyngau Sifil 2004.
- argyfyngau eraill sy'n digwydd y tu allan i'r ysbyty, gan gynnwys ateb ac ymateb i alwadau a wneir i 999 a 112 a chamau brys i reoli neu liniaru clefyd, haint neu halogiad.
- pan fydd corff a restrir yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau'n is-gontractio ag ysbyty preifat yng Nghymru neu ysbyty y tu allan i Gymru i ddarparu neu gynnal gweithgaredd ar ei ran. Os yw unigolyn yn cael ei drin neu'n mynychu ysbyty preifat yng Nghymru neu ysbyty y tu allan i Gymru ar ran un o'r cyrff a restrir yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau drafft, mae hyn yn golygu na fydd yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â'r safonau. Yn ymarferol felly, os caiff unigolyn ei atgyfeirio gan fwrdd iechyd yng Nghymru i ysbyty yn Lloegr am driniaeth ni fydd y safonau'n gymwys.

- pan fydd corff a restrir yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau drafft yn is-gontractio â darparwr gofal sylfaenol i ddarparu gwasanaethau neu gynnal gweithgaredd ar ei ran.
- pan gaiff ymchwil feddygol ei chynnal neu ei chomisiynu gan un o'r cyrff a restrir yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau drafft. Nid ydym o'r farn bod y gweithgareddau hyn yn rhan greiddiol o wasanaethau'r cyrff i'r cyhoedd ac nid ydym am i safonau ymyrryd â gweithgareddau masnachol y cyrff. Rydym am i gyrff ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg rheng flaen ym meysydd craidd eu gwaith fel y gall pobl gael gafael ar y gwasanaethau y maent yn eu dymuno. Nid yw ymchwil feddygol yn perthyn i'r categori hwn, ac ni welwn unrhyw fudd mewn rhoi cyrff dan ddyletswydd afresymol i ymestyn gwasanaethau Cymraeg i'r maes gwaith arbenigol hwn.
- Nid yw'r safonau yn gymwys i ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol (wedi eu contractio neu ddarparu'n uniongyrchol) ac eithrio yn y sefyllfaoedd a ddisgrifir yn Rhan 2.

Rhan 2 – Gofal sylfaenol

Yn ogystal a chyflogi bobl proffesiynol i ddarparu gwasanaethau iechyd, mae byrddau iechyd yn contractio ystod o wasanaethau oddi wrth darparwyr annibynnol megis ysbytai preifat a gwasanaethau tu allan i Gymru (gweler Rhan1), meddygon teulu, deintyddion, optometryddion a fferyllwyr cymunedol. Maent hefyd yn sicrhau gwasanaethau gan gyrrff gwirfoddol a gyfeirir atynt fel arfer fel y trydydd sector.

Yn y safonau drafft, diffinnir gofal sylfaenol fel gofal sy'n cynnwys ymarfer cyffredinol (meddygon teulu), gwasanaethau deintyddol, offthalmig a fferyllol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau wedi'u contractio yn ogystal â gwasanaethau o fath tebyg a ddarperir yn uniongyrchol gan y byrddau iechyd. Fel rhan o'r broses o baratoi'r Rheoliadau drafft hyn, rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i sut y gallai casgliad y Comisiynydd ynglŷn â gofal sylfaenol gael ei gyflawni drwy safonau.

Daeth y Comisiynydd i'r casgliad hwn:

'Gan mai gofal sylfaenol yw cyswllt cyntaf mwyafrif aelodau'r cyhoedd gyda'r Gwasanaeth Iechyd, cred Comisiynydd y Gymraeg ei bod yn hanfodol sicrhau cysondeb ymddygiad ieithyddol ar draws y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn ei gyfarwydd. O ganlyniad, rhaid i ddarparwyr gofal sylfaenol fod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg o dan yr un fframwaith statudol â'r sefydliadau iechyd a fu'n destun i'r ymchwiliad safonau hwn'. Daw'r Comisiynydd felly i'r casgliad bod angen safonau ychwanegol er mwyn galluogi hyn i ddigwydd.

Fel rhan o'n hymateb, buom yn edrych ar nifer o ddewisiadau. Fe wnaethom ystyried a ddylid gosod safonau ar ddarparwyr gofal sylfaenol unigol - hynny yw meddygfeydd Meddygon Teulu unigol, deintyddfeydd, optegwyr a fferyllfeydd. Mae tua 460 o feddygfeydd meddygon teulu a 2,000 o feddygon teulu, 1,500 o ddeintyddion, 800 o optometryddion a 700 o fferyllfeydd cymunedol ledled Cymru. Mae'r rhain yn amrywio o ddarparwyr unigol i gwmnïau mawr. Yn ein barn ni, byddai'r dull hwn yn rhy fiwrocraidaidd gan ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ddyroddi hysbysiad cydymffurfio i bob darparwr unigol a rheoleiddio pob darparwr. Nid ydym yn credu y gellir cyfiawnhau'r fiwrocraatiaeth sydd ynghlwm wrth y dull hwn nac ychwaith y byddai'n cyflawni canlyniadau disgwylidig y Mesur.

Aseswyd a ddylai'r safonau a osodir ar fyrddau iechyd (safonau 1 – 82) ymestyn i ofal sylfaenol. Byddai hyn yn trin bwrdd iechyd lleol sy'n is-gontractio gofal sylfaenol yn yr un modd â bwrdd iechyd lleol sy'n is-gontractio unrhyw wasanaeth arall³. Byddai'n gwneud y bwrdd iechyd yn gyfrifol am unrhyw fethiant i gydymffurfio â safonau gan un o'r darparwyr gofal sylfaenol er gwaethaf y ffaith nad oes ganddo unrhyw ddylanwad uniongyrchol ar y darparwr unigol. Gallai'r dull hwn arwain at ddiffyg eglurder i'r cyhoedd a darparwyr gofal sylfaenol gan na fyddai safonau'r Gymraeg ond yn berthnasol i wasanaethau y mae darparwyr gofal sylfaenol yn eu darparu ar ran y byrddau iechyd lleol. Gan fod llawer o ddarparwyr hefyd yn ymgymryd â gwaith preifat, ni fyddai'r amgylchiadau pan fyddai disgwyl

³ Oni bai ei fod yn ymgynghoriad clinigol neu'n gynhadledd achos: gweler y paragraff uchod dan y teitl "ymgynghoriadau clinigol a chynadledau achos a ddarperir gan un bwrdd iechyd neu ymddiriedolaeth ar ran un arall"

iddynt gydymffurfio â safonau yn glir bob amser – gallai unigolyn gael cymysgedd o wasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat yr un pryd.

Ffactor arall o bwys yn ein hystyriaeth oedd capasiti darparwyr gofal sylfaenol unigol i allu cynnig gwasanaethau iaith Gymraeg i'r un graddau â'r byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau, a sut y byddent yn gallu cydymffurfio â safonau yn ymarferol.

Wrth ystyried ymestyn y safonau i ofal sylfaenol, rydym o'r farn mai trwy'r byrddau iechyd y dylai safonau gael eu gorfodi. Y bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am gynllunio a bodloni anghenion iechyd poblogaeth Cymru gan gynnwys sicrhau gwasanaethau gofal sylfaenol. Bydd safonau 83 – 97, 107 a 107A yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am sut i gael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol Cymraeg a ddylai gynyddu'r defnydd o'r gwasanaethau hynny. Bydd y safonau hefyd yn gwneud yr iaith yn amlycach trwy arwyddion, bathodynnew staff ac argaeledd dogfennau Cymraeg, a fydd yn ei dro yn hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg.

Isod rydym wedi rhestru y safonau newydd arfaethedig mewn mwy o fanylder a fydd yn ein barn ni yn gam cyntaf pwysig i wella'r ddarpariaeth mewn gofal sylfaenol.

Safonau 107 a 107A

Rydym am weld gwasanaethau iechyd, boed y rheiny'n cael eu darparu'n uniongyrchol neu'n cael eu contractio, yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi mewn modd sy'n gwella gwasanaethau Cymraeg. Dyna pam yr ydym wedi cyflwyno dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol i ddatblygu polisi sy'n ystyried effaith y penderfyniadau a wnânt mewn perthynas â darparu gwasanaethau gofal sylfaenol ar y cyfleoedd i berson ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 83

Bydd yn ofynnol i fyrddau iechyd hyrwyddo ar eu gwefan unrhyw ddarparwyr gofal sylfaenol sy'n fodlon darparu'r cyfan neu ran o'i wasanaeth gofal sylfaenol trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth hygyrch i'r cyhoedd am wasanaethau Cymraeg yn eu hardal.

Safonau 84 a 84A

Rhaid i fyrddau iechyd ddarparu gwasanaeth cyfieithu i ddarparwyr gofal sylfaenol i'w galluogi i gael cyfieithiadau Cymraeg o arwyddion a arddangosir mewn cysylltiad â'i wasanaethau. Rydym o'r farn y bydd ei gwneud hi'n haws i ddarparwyr gofal sylfaenol gael cyfieithiad ar gyfer arwyddion yn hybu'r defnydd o arwyddion dwyieithog.

Safonau 85 a 86

Bydd yn ofynnol i fyrddau iechyd gynhyrchu unrhyw ddogfen mewn perthynas â gwasanaethau gofal sylfaenol sydd at ddefnydd y cyhoedd yn Gymraeg.

Safon 87

Mae'r safon yma yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw ddogfen y maent yn ei rhoi i ddarparwyr gofal sylfaenol a fwriedir at ddefnydd y cyhoedd.

Safonau 88-92

Mae'r safonau yma yn sicrhau bod gwybodaeth am ofal sylfaenol ar wefan y byrddau iechyd ar gael yn Gymraeg.

Safon 93 i 95

Mae'r safon yma yn sicrhau bod pob ap y maent yn ei gyhoeddi sy'n ymwneud â gofal sylfaenol ar gael yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg pan fyddant yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â gwasanaethau gofal sylfaenol.

Safonau 96 a 96A

Mae'n ofynnol i'r byrddau iechyd ddarparu a hyrwyddo gwisgo bathodynau sy'n cyfleu bod darparwr gofal sylfaenol (neu aelod o staff) yn siarad Cymraeg. Nod y safonau hyn yw ei gwneud hi'n haws i aelodau o'r cyhoedd wybod bod rhywun yn gallu siarad Cymraeg ac felly'n dechrau'r sgwrs yn Gymraeg heb orfod gofyn.

Safon 97

Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd ddarparu cyrsiau hyfforddi, gwybodaeth neu gynnal digwyddiadau ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a sut y gellir ei defnyddio yn y gweithle.

Rhan 3 – Diwygiadau i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r Rheoliadau drafft hefyd yn diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4). Cymeradwywyd Rheoliadau Rhif 4 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 15 Mawrth 2016.

Mae'r cyrff a restrir yn rheoliad 4 o'r Rheoliadau drafft amgaeedig yn rhannu nodweddion tebyg i'r rhai sydd eisoes yn ddarostyngedig i Reoliadau Rhif 4 (gweler Atodiad A am restr lawn o gyrff). Maent yn gyrff annibynnol sy'n goruchwyllo'r proffesiwn ieched a gofal cymdeithasol drwy reoleiddio gweithwyr proffesiynol unigol. Maent yn cofrestru ac yn cadw'r gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys ac yn addas i ymarfer, yn cymeradwyo addysg ac yn gosod safonau ymarfer ac yn ymdrin â chwynion a phryderon am unigolyn ar eu cofrestr. Maent yn cynnal gwrandawiadau ffit i ymarfer, sy'n debyg o ran eu strwythur a'u diwyg i wrandawiadau Tribiwnlys a gynhelir gan gyrff eraill yn Rheoliadau Rhif 4. Mae'r gwrandawiadau hyn yn clywed ac yn ymchwilio i honiadau o ymddygiad proffesiynol annerbyniol a allai godi amheuaeth ynghylch addasrwydd ymarferydd cofrestredig i ymarfer. Gwneir apeliadau o'r gwrandawiadau hyn i Lys Apêl Cymru a Lloegr ar gyfer Cyngor Gofal Cymru ac i'r Uchel Lys ar gyfer yr holl gyrff eraill. Llywiodd hyn ein penderfyniad bod y gwrandawiadau o natur debyg a bod hynny'n cyfiawnhau eu cynnwys yn Rheoliadau Rhif 4.

I adlewyrchu'r ffaith nad oes gan rai o'r cyrff yr ydym yn bwriadu eu cynnwys yn Rheoliadau Rhif 4 swyddfa yng Nghymru nid ydym yn cynnig peri bod yr holl safonau yn Rheoliadau Rhif 4 yn benodol gymwys iddynt. Mae rheoliad 4(1) yn ymdrin â'r mater hwn.

Dim ond mewn perthynas â Chymru y gall Gweinidogion Cymru beri bod safonau'n benodol gymwys i gorff. Yn ogystal, o safbwynt ymarferol, nid ydym o'r farn ei bod yn briodol i gorff a leolir yn Lloegr gydymffurfio â'r holl safonau a bennir yn Rheoliadau Rhif 4. Er enghraifft ni ddylid disgwyl i gorff nad oes ganddo swyddfa yng Nghymru ddarparu gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg, h.y. i sicrhau bod person sy'n gallu cyfarch pobl yn Gymraeg yn unrhyw rai o'i fannau derbyn.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Gofynnwyd i'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r rheoliadau drafft hyn gymryd rhan mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) gan Lywodraeth Cymru fel rhan o ail ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg i'r safonau. Dosbarthwyd holiadur yr RIA gyda dogfennau Ymchwiliadau Safonau'r Comisiynydd. Cynhaliwyd ymchwiliad y Comisiynydd rhwng 7 Tachwedd 2014 a 9 Chwefror 2015, a gofynnwyd i gyrff gyflwyno eu hymatebion RIA yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Roedd yr ymatebion i'r RIA yn seiliedig ar y Rheoliadau Rhif 1 drafft a baratowyd ar gyfer Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a ddefnyddiwyd gan y Comisiynydd yn sail i'r ymchwiliad. Cyhoeddwyd y Rheoliadau Rhif 1 drafft mewn ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Tachwedd 2014. O ganlyniad i'r ymatebion a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw cafodd y Rheoliadau eu diwygio cyn cael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mawrth 2015.

Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y Rheoliadau drafft presennol a'r rhai a ddefnyddiwyd yn ystod yr Ymchwiliad. Rydym felly yn gofyn i'r cyrff hynny a fydd yn ddarostyngedig i'r

Rheoliadau hyn gwblhau RIA arall yn seiliedig ar y Rheoliadau drafft. Diben yr RIA yw helpu Gweinidogion Cymru i ystyried effaith rheoleiddio arfaethedig ar fuddiannau unigolion, grwpiau, cyrff etc i bwysu a mesur costau a manteision yr holl ddewisiadau sydd ar gael iddynt cyn rhoi polisi ar waith. Bydd yn fodd hefyd o gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath at ddibenion craffu

Sut i ymateb

Mae cwestiynau penodol wedi'u rhestru yn y ffurflen ymateb ar wahân; ac fe'ch gwahoddir i roi atebion i'r cwestiynau hyn, neu i gyflwyno sylwadau yn fwy cyffredinol. Gellir cyflwyno'r rhain yn electronig neu ar ffurf copi caled, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar dudalen 2 o'r ddogfen hon, erbyn 14 Hydref 2016.

Byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgynghori dros yr ychydig fisoedd nesaf mewn lleoliadau gwahanol yng Nghymru ac fe gaiff gwybodaeth bellach ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Atodiad A: Cyrff y sector iechyd sy'n cael eu cynnwys yn y Rheoliadau arfaethedig

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Powys Teaching Health Board
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Aneurin Bevan University Health Board
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	Cwm Taf University Health Board
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Abertawe Bro Morgannwg University Health Board
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Betsi Cadwaladr University Health Board
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Cardiff and Vale University Health Board
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Hywel Dda University Health Board
Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru	Board of Community Health Councils in Wales
Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg	Abertawe Bro Morgannwg Community Health Council
Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan	Aneurin Bevan Community Health Council
Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr	Betsi Cadwaladr Community Health Council
Cyngor Iechyd Cymuned Powys	Powys Community Health Council
Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro	Cardiff and Vale Community Health Council
Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf	Cwm Taf Community Health Council
Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda	Hywel Dda Community Health Council
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	Welsh Ambulance Service NHS Trust
Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru 	Velindre NHS Trust Including: <ul style="list-style-type: none"> NHS Wales Informatics Service NHS Wales' Shared Service Partnership
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru	Public Health Wales NHS Trust
Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG	NHS Business Services Authority

Y cyrff yr ydym yn bwriadu eu cynnwys yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4)

Cyngor Gofal Cymru	The Care Council for Wales
Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol	The General Chiropractic Council
Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol	The General Dental Council

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol	The General Medical Council
Y Cyngor Optegol Cyffredinol	The General Optical Council
Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol	The General Osteopathic Council
Y Cyngor FferylloI Cyffredinol	The General Pharmaceutical Council
Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal	The Health and Care Professions Council
Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol	The Professional Standards Authority for Health and Social Care
Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth	The Nursing and Midwifery Council

Atodiad B: Adroddiadau a deddfwriaeth

Mae'r adroddiadau a'r ddeddfwriaeth isod yn nodi cyd-destun y polisi ar gyfer cyflenwi gwasanaethau Cymraeg yn y sector iechyd. Maent yn dangos bod iaith yn rhan annatod o bob agwedd ar ofal iechyd a'i bod yn allweddol er mwyn trin cleifion â pharch ac urddas. Rydym o'r farn y bydd y safonau drafft hyn yn gam ymlaen at gyrraedd y nod.

Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol

Cyhoeddwyd *Fy Iaith, Fy Iechyd* gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 10 Mehefin 2014. Roedd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar y sector gofal sylfaenol gan mai dyma'r pwynt cyswllt cyntaf i lawer o aelodau'r cyhoedd â'r system gofal iechyd. Roedd casgliadau'r Comisiynydd yn dilyn yr ymchwiliad, yn ogystal ag ymateb Gweinidogion Cymru i'r ymchwiliad hwnnw ym mis Rhagfyr 2014, yn adlewyrchu'r angen am ddarpariaeth ddigonol o wasanaethau Cymraeg yn y sector hwn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae'r Ddeddf yn rhestru saith o nodau ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Mae un o'r nodau hyn yn anelu at sicrhau '*Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*'. Bydd rhoi'r safonau ar waith yn cyfrannu at y nod hwn drwy sicrhau bod mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio gwasanaethau yn Gymraeg ac i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg, a fydd yn eu tro yn gwarchod a hybu'r iaith, a diwylliant a threftadaeth Cymru.

Gofal Iechyd Darbodus

Bydd y safonau yn gymorth i newid y diwylliant fel sydd ei angen i ddarparu Gofal Iechyd Darbodus. Drwy ddarparu gwasanaethau Cymraeg a chymorth Cymraeg, bydd y safonau yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn deall yr hyn sy'n cael ei ddweud wrthynt, i'w galluogi i gymryd rhan yn y ddarpariaeth ofal y maent yn ei derbyn. Fel hyn, bydd y safonau yn helpu darparwyr gwasanaethau i fodloni egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus, sef 'peidio â gwneud niwed' a 'chynnal yr ymyriad lleiaf sy'n ofynnol'.

Ein cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018⁵

Mae ein cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru yn cynnig gweithredu ar bum maes blaenoriaeth:

- Cynllunio gofal yn lleol
- Gwellu mynediad ac ansawdd
- Mynediad teg
- Gweithlu lleol medrus
- Arweinyddiaeth gadarn

Mae'r byrddau iechyd wedi sefydlu 64 o glystyrau gofal sylfaenol ledled Cymru fel mecanweithiau effeithiol i alluogi cydweithio yn ogystal â chyfuno adnoddau ac arbenigedd i ddiwallu anghenion cymunedau lleol. Mae asesu anghenion y boblogaeth a chynllunio sut i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys sgiliau y gweithlu, ar ei fwyaf effeithiol os gwenir hynny ar lefel leol iawn mewn cymunedau o rhwng 25,000 a 100,000 o bobl. Drwy

⁴<http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Crynodeb%20Gweithredol%20Ymholiad%20Iechyd.pdf>

⁵<http://gov.wales/docs/dhss/publications/150218primarycy.pdf>

weithio drwy glystyrau, mae byrddau iechyd yn amcani i wella gwasanaethau Cymraeg trwy wneud y defnydd gorau o'r sgiliau Cymraeg sydd ar gael o fewn y gweithlu, boed hynny'n weithwyr a gyflogir yn uniongyrchol neu'n weithwyr dan gontract.

Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru

Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru sy'n nodi'r hawliau sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac sy'n berthnasol i fywydau pobl hŷn yng Nghymru. Yn y Datganiad, eglurir bod gan bobl hŷn yr hawl i ddefnyddio'r iaith sydd orau ganddynt i gyfathrebu. Bydd y safonau arfaethedig yn gwella ymwybyddiaeth cyrff y gwasanaeth iechyd o hawliau ac anghenion pobl o safbwynt y Gymraeg.

Deddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant

Mae nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol megis Deddf Plant 1989 a 2004 yn diogelu hawliau plant. Mae hawliau ieithyddol plant yn cael eu cryfhau gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n rhoi effaith bellach yng Nghymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r Confensiwn yn diogelu hawliau plant i ddefnyddio eu hiaith eu hunain.

Y Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol

Mae Siarter Ewrop ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol wedi ei chadarnhau gan Lywodraeth y DU ac mae'n sefydlu'r egwyddor bod yr hawl i ddefnyddio iaith ranbarthol neu iaith leiafrifol yn breifat ac mewn bywyd cyhoeddus yn hawl ddiymwad.

Mae erthygl 13 y Siarter yn ymwneud â 'Bywyd Economaidd a Chymdeithasol' ac mae'n rhwymo:

'i sicrhau bod cyfleusterau gofal cymdeithasol megis ysbytai, cartrefi ymddeol a hosteli yn cynnig y posibilrwydd o dderbyn a thrin yn eu hiaith eu hunain bersonau sy'n defnyddio iaith ranbarthol neu leiafrifol ac sydd angen gofal oherwydd afiechyd, henaint neu am resymau eraill'.

Fodd bynnag, dangosodd yr adroddiad monitro diweddaraf gan COMEX⁶ (Pwyllgor Arbenigwyr Cyngor Ewrop) yn 2010 fod llawer o waith eto i'w gyflawni. Gwnaeth yr argymhelliad a ganlyn:

'...bod awdurdodau y Deyrnas Unedig... yn cymryd camau pendant i sicrhau cynnydd pellach yn y defnydd o'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.'

⁶ COMEX (Pwyllgor Arbenigwyr Cyngor Ewrop) 2010